**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Tachwedd 8fed 2021 yn Neuadd Rhoshirwaun**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Gwenllian Hughes Jones, Emlyn Jones, Wenda Williams, Mari Evans, Wil Evans, RJ Williams a Geraint Jones

**Yn y gadair: Cyng Nesta Roberts**

**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb:</u>** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Dafydd Williams ac Iain Roberts.

Trafodwyd absenoldeb y Cyng Gareth Roberts, mae'r Cyngor bellach wedi cyfarfod mewn neuaddau ers mis Ebrill ac nid yw wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod. Tynnwyd sylw at y ffaith fod rheol yn datgan na chaiff aelod sydd yn colli chwe cyfarfod, un ar ôl y llall barhau i fod yn aelod o'r Cyngor. Penderfynwyd gwneud ymholiadau i weld os oes discresiwn gan adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd:</u>** Estynwyd cydymdeimlad dwys gyda theulu y diweddar Gynghorydd Robin G Williams a mynegwyd hynny trwy funud o dawelwch. Gwasanaethodd y Cyng RG Williams y Cyngor Cymuned yn ffyddlon am ddegawdau a bydd bwlch mawr ar ei ôl.

**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg o Hydref 2021</u>:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**<u>4</u>) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**

**i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**

i)Cerrig yn rhydd ym Mhont Bodnant: Mae'r sylw yma ei anfon ymlaen i Ymgynghoriaeth Gwynedd, Gwasanaeth Adeiladu ac Isadeiledd.

ii) Goleuadau ger Ysgol Crud y Werin: Mae'r mater yma wedi cael ei anfon i'r Gwasanaeth Trafnidiaeth gyda chais iddynt ymateb yn uniongyrchol i'r Cyngor, ni dderbyniwyd ymateb hyd yma.

iii)Glanhau Arwyddion Ffyrdd: Mae'r Archwiliwr am drefnu rhestr o arwyddion sydd angen sylw a threfnu i'r Uned Waith ymgymryd â'r gwaith pan fydd adnoddau ar gael.

iv)Porthor: Gwnaed cais i aelod o'r Cyngor Cymuned gysylltu gyda Caradog Williams, yr Archwiliwr Priffyrdd er mwyn cadarnhau lle mae diffyg arwyddion ar yr arwyddbost. Mae arwyddion ar arwyddbost cyffordd Porthor a hefyd yr un i lawr am y traeth.

v)Bwlch Clawdd: Mae'r twll ger Bwlch Clawdd, Y Rhiw am gael sylw buan.

vi)Llinellau Gwyn: Mae'r llinellau ffordd ddiffygiol yn yr ardal wedi cael eu hadnabod ac ar restr waith y contractwr allanol i'w ymgymryd pan fydd adnoddau ar gael.

**ii)Materion yr Eglwys Newydd:** Trafodwyd cyflwr yr eglwys a'r ffaith fod yr orfodaeth i gau yr eglwys am resymau iechyd a diogelwch yn golled fawr i'r gymuned. Nodwyd fod y ffaith nad ydi hi wedi ei chysegru yn ei gwneud yn anodd denu grantiau i'w hatgyweirio. Penderfynwyd gofyn i'r Eglwys yng Nghymru os y byddent yn ystyried ei chysegru ac am arweiniad ynghylch sut i symud ymlaen.

Trafodwyd yr angen am gyfarfod cyhoeddus i weld beth mae'r gymuned yn ddymuno weld yn digwydd iddi. Crybwyllwyd y posibilrwydd o'i gwneud yn gapel gorffyws gan nad oes un agosach na Rhosfawr a Phwllheli.

**iii)Coeden Nadolig:** Nodwyd nad oes gan y Cyngor Cymuned dir ar gyfer lleoli coeden Nadolig. Awgrymwyd y byddai rhwng Hen Blas a Sblash yn leoliad addas i'r goeden Nadolig, o flaen yr Hen Bost yn lleoliad arall posib.

**iv)Safleoedd Llidiardau a Deunant:** Nid oes ymateb pellach wedi ei dderbyn heblaw fod Cyngor Gwynedd yn bwriadu trafod posibiliadau y ddau safle yn fuan. Pwysleiswyd fod angen ateb buan.

**v)Ymgynghoriad angen am dai yn ardal Aberdaron:** Gan nad oedd ymateb i'r ymgynghoriad, ni chafodd y weminar ei chynnal yn mis Hydref. Penderfynwyd gofyn i'r Hwylusydd Tai Gwledig am wybodaeth bellach ynglyn a'r ymgynghoriad.

**vi)Meddygfa Rhydbach:** Mae dyddiad y cyfarfod wedi ei symud ymlaen o'r 9fed o Dachwedd i ddechrau y flwyddyn nesaf.

**vii)Cae chwarae:** Diolchwyd i'r Cyng Emlyn Jones a'r teulu am gyflwyno rhodd ariannol tuag

at y cae chwarae yn ddiweddar yn dilyn casgliad.

**5) Gohebiaethau**

i)Ymgynghoriad cyn cyflwyno cais - safle Cartref y Pwyliaid, Penrhos (er gwybodaeth).

**6) Cynllunio**

Dim i law

**7)Sedd wag ar y Cyngor:** Mae swyddog etholiadau Cyngor Gwynedd wedi egluro nad oes rhaid hybysebu sedd wag ar hyn o bryd oherwydd fod etholiad yn mis Mai 2022. Penderfynodd y Cyngor symud ymlaen i benodi Cynghorydd i'r sedd wag, bydd y clerc yn cysylltu â'r swyddog etholiadau i'w hysbysu.

**8)Ariannol**

**Taliadau**

Awdurdodwyd y clerc i dalu y canlynol:
Iwan Hughes: £186.29 (cyflog)
Iwan Hughes: £12.17 (costau)
HMRC (Paye): £46.40
Gerddi Gwell: £1920 (torri gwellt y fynwent)
Nesta Roberts: £12 (CCTV trwy S/O)

**Derbyniadau**

GW Parry: £145 (claddedigaeth Alwyn Jones)
GW Parry: £120 (claddu llwch RG Williams)

**9) Materion ffyrdd a llwybrau**

i)Pridd yn mynwent yr eglwys: Nid yw y pridd wedi ei symud, ac mae y ddaear yn rhy wlyb ar hyn o bryd i fynd a pheiriannau yno. Bydd rhaid aros tan y gwanwyn bellach a phwysleiswyd ei bod yn bwysig rhoi cerrig mân ger y giat isaf wedyn.
ii)Mae gylis ger Bryn Eithin, Rhoshirwaun a ger Bryn Gwynt, Anelog wedi cau.
iii)Mae dwr yn hel ar y ffordd gen Dwyryd, Rhoshirwaun.
iv)Mae coeden yn tyfu i'r ffordd ger Heather, Y Rhiw
v)Yn dilyn glaw mawr yn ddiweddar bu'r ffordd ar gau o Lanbedrog i Bwllheli ond nid oedd arwyddion cyn cyrraedd Llanbedrog. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd am arwyddion yn Mynytho a Phenygroeslon.
vi)Mae dwr yn hel ar bont Nant Eiddon a ger Blawdty, Penycaerau ac yn llifo i'r ffordd o'r ddwy ochr ger Pencruga.
vii)Mae'r Cyng Wenda Williams yn bwriadu mynychu y gwasanaeth coffa yn Eglwys Sant Hywn ar yr 11eg o Dachwedd - penderfynodd y Cyngor roi torch yn flynyddol i'w rhoi ar y gofeb. Mae torch wedi ei archebu, £20 yw ei chôst.
viii)Mae ffos ddofn wedi ei hagor ger Groeslon, Y Rhiw, ond mae'r dwr yn llifo i'r ffordd.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor, nos Lun, Rhagfyr y 6ed yng Nghanolfan Deunant am 7.30y.h**